

29 Rhagfyr 2022

Annwyl

Cais am Wybodaeth – ATISN 16876

Diolch am eich cais am wybodaeth newydd, dyddiedig 2 Rhagfyr 2022.

Eich cais

Rydych wedi gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

O dan yr amgylchiadau, rhowch fanylion yr holl gyfathrebiadau, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, rhwng Llywodraeth Cymru yn ymwneud â bywyd economaidd Gogledd-ddwyrain Ynys Môn (sef ardal etholiadol Twrcelyn) sy'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at Gyngor Tref Amlwch neu unrhyw aelod o'r Cyngor am y cyfnod 2021 i'r presennol.

Ein hymateb

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth sy'n ateb eich cais.

Mae'r detholiadau perthnasol o wahanol ddogfennau wedi'w cynnwys o fewn y ddogfen atodol.

Wrth ystyried eich cais yr wyf wedi cynnwys peth gwybodaeth sy'n ehangach na'ch cais uchod h.y nid oes cyfeiriad at Gyngor Tref Amlwch na'i aelodau ynddo. Hyderaf y bydd hyn o ddefnydd i chi.

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y deliodd Llywodraeth Cymru â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru yn:

Uned Hawliau Gwybodaeth,

Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays,

Caerdydd

CF10 3NQ

neu e-bostiwch: Freedom.ofinformation@llyw.cymru

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi na fydd y Comisiynydd yn ymchwilio i gŵyn fel arfer nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ein hunain.

Yn gywir